

2022/23

**PTMN**

## Nodiadau ymgeisio ar gyfer myfyrwyr rhan-amser newydd

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg. Ni wnaiff hynny arafu ein hymateb.  
Gallwch hefyd wneud cais ar-lein yn [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)

### Ynghylch y nodiadau hyn

Dylid darllen y nodiadau hyn ynghyd â'ch ffurflen gais am grant i fyfyrwyr newydd rhan-amser.

### Dychwelyd eich ffurflen

Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi ac unrhyw ddogfennau at:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**  
**Blwch Post 211**  
**Cyffordd Llandudno**  
**LL30 9FU**

#### Amserlen dychwelyd eich ffurflen

Dylech dychwelyd eich ffurflen o fewn naw mis o gychwyn y flwyddyn academiaidd, fel arall efallai y gallech gollu eich hawl i gael cyllid myfyrwyr.

**Cofiwch dalu'r tâl post cywir.**

### Darganfyddwch ragor

Gallwch ganfod ragor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr rhan-amser trwy:

- droi at [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)
- darllen ein canllawiau i fyfyrwyr rhan-amser
- siarad â'ch prifysgol neu eich coleg
- ffonio ni ar **0300 200 4050**

### Gwybodaeth arall

#### Ffurfiâu eraill

Gallwch archebu ffurflenni a chanllawiau Braille, print bras neu sain trwy anfon e-bost gyda'ch enw, eich cyfeiriad, a'ch Cyfeirnod Cwsmer ynghyd â manylion y ffurflen a'r fformat yr hoffech eu cael at: [brailleandlargefonts@slc.co.uk](mailto:brailleandlargefonts@slc.co.uk) neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**. Sylwer, dim ond ceisiadau am ffurflenni a chanllawiau ar ffurfiâu eraill y gall y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio â hwy.

# 1 Eich manylion personol

## 1.1 Cyfeirnod Cwsmer

Eich Cyfeirnod Cwsmer yw eich cyfeirnod personol ac mae'n cynnwys 11 rhif. Bydd gennych un o'r rhain os ydych eisoes wedi cael benthyciad i fyfyrwyr neu unrhyw gyllid arall i fyfyrwyr gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyfyngedig (SLC). Efallai bod gennych gyfeirnod os ydych wedi rhannu gwybodaeth ariannol at ddiben cais myfyrwr arall. Os nad oes gennych un, neu os na wyddoch eich Cyfeirnod Cwsmer, gadewch hyn yn wag.

## 1.2 Manylion personol



Bydd angen ichi anfon eich:

- Gweithred newid enw, os yw'n briodol.
- Tystysgrif priodas/ysgariad, os yw'n briodol.
- Gorchymyn diddymu partneriaeth sifil, os yw'n briodol.

## 1.3 Rhif Yswiriant Gwladol



Os oes gennych chi Rif Yswiriant Gwladol ond na fyddwch yn ei nodi, ni fyddwch yn cael eich benthyciad(au) a bydd yn rhaid i chi dalu'ch ffioedd dysgu a'ch costau byw eich hun nes byddwch wedi datrys hyn.

Nodir eich Rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw rai o'r canlynol:

- eich cerdyn neu lythyr Rhif Yswiriant Gwladol; neu
- slip talu;
- sogfen treth incwm megis P45 neu P60.

Os nad ydych erioed wedi cael Rhif Yswiriant Gwladol, dylech adael y bocs Rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen i chi gymryd unrhyw gamau er mwyn cael Rhif Yswiriant Gwladol.

## 1.4 Profi pwy ydych chi

Os ydych wedi cyflwyno manylion eich pasbort Prydeinig dilys, nid oes rhaid ichi anfon unrhyw dystiolaeth arall i gadarnhau pwy ydych chi.

Os ydych chi wedi rhoi cod rhannu i ni i gadarnhau eich manylion preswyllo, nid oes angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth bellach i gadarnhau eich hunaniaeth.



Os nad oes gennych basbort Prydeinig neu os yw eich pasbort wedi dod i ben, mae angen ichi anfon eich:

- Pasbort heb fod o'r Deyrnas Unedig **neu**
- Hawlen Preswyllo Fiometrig Wreiddiol **neu**
- Dystysgrif geni neu fabwysiadu gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Dychwelir eich dogfennau gwreiddiol atoch cyn gynted ag y bo modd.**

## 1 Eich manylion personol

### 1.7 Statws priodasol



Rydych yn 'byw gyda phartner' os ydych yn rhannu cartref gyda'ch partner ond nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Nid yw o bwys os ydych o'r un rhyw neu o ddau ryw gwahanol.

Os ydych wedi dechrau partneriaeth sifil dramor neu berthynas cyfreithiol cyfwerth â phartner o'r un rhyw, byddwn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu a gaiff hyn ei gydnabod at ddibenion cyllid myfyrwyr.

Wedi gwahanu, ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu



Bydd angen ichi anfon:

- Archddyfarniad Absoliwt **neu**
  - Orchymyn diddymu **neu**
  - Gorchymyn terfynol neu amodol, **neu**
  - Lythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau eich statws
- 
- Tystysgrif marwolaeth wreiddiol

Gweddw/partner sifil sy'n goroesi

## 2 Cymorth blaenorol a hanes cymwysterau

### 2.2 Gradd gyntaf o un o sefydliadau addysgol y Deyrnas Unedig



Os oes gennych chi radd anrhydedd eisoes o un o sefydliadau addysgol y Deyrnas Unedig, efallai na fyddwch chi'n gymwys i gael Benthyciad Cynhaliaeth, Benthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru neu Grantiau ar gyfer Pobl Ddibynnol.

## 3 Preswylfa

### 3.1 Gwladolyn y DU



Os ydych wedi darparu gwybodaeth am eich pasbort y DU neu dystysgrif eni fel rhan o adran 1, nid oes angen i chi anfon tystiolaeth bellach o'ch cenedligrwydd y DU.

#### Lluoedd Arfog

Os ydych chi, eich rhiant neu rieni neu bartner yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y Deyrnas Unedig ble roeddech yn byw fel arfer pan wnaethoch chi/nhw ymrestru.

Oni bai eich bod yn byw'n barhaol mewn ardal arall o'r Deyrnas Unedig. Gallwch dderbyn copïau ardystiedig o'ch tystiolaeth preswyllo, wedi ei stampio â stamp eichuned. Dylech ddefnyddio eich cyfeiriad BFPO ar gyfer pob gohebiaeth.

### 3.2 Gwladolyn Gwyddelig



Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi anfon eich pasbort Gwyddelig neu'r UE.

Os oes gennych chi basbort y DU, dylech ddarparu eich manylion pasbort yn adran 2 gan nad oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth o'ch cenedligrwydd.

### 3.3 Aelod o deulu gwladolyn y DU



I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- plentyn neu lys blentyn

i wladolyn y DU.



Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn aelod o deulu gwladolyn y DU trwy anfon ei basbort/phasbort.

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU. Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; **neu**
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; **a**
- dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llys-blentyn.

Ar gyfer disgynnydd uniongyrchol gwladolion y DU, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.'

### 3.4 Statws preswilydd sefydlog neu statws preswilydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE



Os oes gennych chi statws preswilydd cyn-sefydlog, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn wladolyn yr UE, trwy anfon eich pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol yr UE. Does dim ond angen i chi ddarparu tystiolaeth hunaniaeth os na ellir darparu cod rhannu.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswilydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. Ewch i [www.gov.uk/view-prove-immigration-status](https://www.gov.uk/view-prove-immigration-status) i greu cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 30 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth.

### 3.5 Plentyn gwladolyn y Swistir



Rhaid bod gan eich rhiant neu lys riant statws preswlydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rhaid bod gennych chi statws preswlydd cyn-sefydlog ac yn preswyllo fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.



Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn blentyn i wladolyn Swisaidd trwy anfon pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich rhiant. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom, fel prawf o'ch perthynas.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- Datganiadau banc
- Slipiau cyflog
- Cytundeb tenantiaeth/Datganiad morgais
- Bil cyfleustod
- Gohebiaeth Awdurdod Lleol
- Gohebiaeth adran o'r Llywodraeth

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswlydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich rhiant neu lys-riant, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i [www.gov.uk/view-prove-immigration-status](http://www.gov.uk/view-prove-immigration-status) i greu'r codau. Yn dilyn ei greu, bydd y codau'n dod i ben wedi 30 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich rhiant neu lys-riant.

### 3.6 Gweithiwr yr AEE neu'r Swistir



Perthynas fy aelod o'r teulu i mi yw:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant; neu
- plentyn, llys blentyn (ddim ond yn

berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE.)

- aelod o'r teulu arall mewn llinell esgynnol neu ddisgynnol uniongyrchol (ddim ond yn

berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE.)

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, wŷr neu wyres, gor-wŷr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, wŷr neu wyres, gor-wŷr neu or-wyres ac ati.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU, rhaid eich bod chi a'ch aelod o'r teulu fod wedi derbyn statws preswlydd cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswlio' Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

### 3.6 Gweithiwr yr AEE neu'r Swistir



Os ydych chi'n aelod o'r teulu i'r gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd, rhaid i'r unigolyn hwnnw ddarparu prawf o'i genedligrwydd ynghyd â'i basbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol. Fel prawf o'ch perthynas, rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni ac/neu dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil.

Fel prawf o statws cyflogaeth cyfredol y gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd, rhaid darparu un o'r canlynol yn dystiolaeth:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os yw'n gweithio ar hyn o bryd;
- Cyfrifon wedi'u harchwilio, ffurflenni treth neu fanylion am ei incwm os yw'n hunangyflogedig;
- Llythyr gan gyflogwr sy'n cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio yn ystod y cyfnod pan fydd yn astudio;
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os yw'n chwilio am waith ar hyn o bryd, neu os yw wedi bod yn gweithio yn y DU yn flaenorol.

Os ydych chi'n rhiant neu berthynas llinell esgynnol uniongyrchol arall i'r gweithiwr rhaid eich bod yn ddibynnol arnynt.

Ar gyfer disgynnydd uniongyrchol gweithwyr o'r AEE, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.' Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion ble mae'r rhiant gweithiwr AEE wedi marw neu adael y DU a bod y plentyn yn aros ymlaen i gwblhau ei addysg yn y DU.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswlydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich aelod o'r teulu, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i [www.gov.uk/view-prove-immigration-status](http://www.gov.uk/view-prove-immigration-status) i greu'r codau. Yn dilyn ei greu, bydd y codau'n dod i ben wedi 30 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich aelod o'r teulu.

Nid oes angen i chi ddarparu cod rhannu os:

- ydych chi'n ddinesydd Gwyddelig; neu
- rydych chi neu'ch aelod o'r teulu yn weithiwr y ffin.



## 3 Preswylfa – parhad

### 3.7 Plentyn gweithiwr Twrcaidd



I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs. Rhaid eich bod yn preswylfio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE y Swistir neu Dwrci am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.



Anfonwch eich llythyr gan y Swyddfa Gartref a Chaniatâd preswylfio biometrig.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylfio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylfio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn blentyn i weithiwr o Dwrci trwy anfon pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich rhiant. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom.

Fel prawf o gyflogaeth eich rhiant o Dwrci yn y DU, rhaid i chi anfon ei gontract/chontract cyflogaeth.

### 3.8 Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)



Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil;
- rhiant neu lys-riant

wedi cael caniatâd dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), byddwch wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau hyn.

Rydym angen un o'r canlynol fel prawf hunaniaeth:

- Dogfen deithio ddilys wreiddiol y Swyddfa Gartref; **neu**
- Hawlen Breswylfio Fiometrig wreiddiol; **neu**
- Basbort gwreiddiol dilys.

ac un o'r canlynol fel prawf statws preswylfio:

- Dogfen deithio wreiddiol y Swyddfa Gartref; **neu**
- Hawlen Breswylfio Fiometrig wreiddiol; **neu**
- Dogfen Statws Mewnfudo wreiddiol; **neu**
- Lythyr gwreiddiol gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau'r categori caniatâd a'r dyddiad pan roddwyd hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylfio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylfio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

## 3 Preswylfa – parhad

### 3.8 Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) - parhad



#### Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol

Mae'r cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys i dderbyn cyllid i fyfyrwyr.

### 3.9 Statws preswilydd sefydlog



Mae 'statws preswilydd sefydlog' yn golygu eich bod yn gallu byw yn y DU yn barhaol heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ynghylch hyd eich cyfnod yma.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw un o'r canlynol yn gymwys:

- rydych yn ddinesydd Prydeinig;
- mae gennych 'hawl preswyllo parhaol' yn y DU;
- rhoddwyd 'caniatâd i aros am amser amhenodol' i chi;
- mae gennych hawl i gartrefu yn y DU.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch hawl preswyllo parhaol a materion eraill sy'n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref.



Os nad oes gennych basbort Prydeinig neu Drwydded Preswyllo Biometrig sy'n cadarnhau'ch statws mewnfudo, ond os oes gennych lythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n ei gadarnhau, dylech anfon y llythyr hwn gyda'ch ffurflen gais.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

### 3.10 Caniatâd mynediad neu aros cyfyngedig dan Gynllun Wcráin



Rhaid i chi brofi eich statws presennol, anfonwch un o'r canlynol i ni:

- eich Caniatâd Preswyllo Biometrig dilys; neu
- eich pasbort dilys gyda vignette; neu
- eich dogfen caniatâd i deithio

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswyllo Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau gwreiddiol.

### 3.11 Statws ffoadur



Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- rhiant/rhieni, llys riant

wedi gwneud cais llwyddiannus am statws ffoadur yn y DU dan amodau Confensiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig 1951 ac os dyfarnwyd statws ffoadur i chi neu nhw, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr atoch chi neu nhw, a dogfen statws mewnfudo sy'n cadarnhau hyn.



Dylech anfon llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo, fel arfer pasbort neu Drwydded Preswyllo Biometrig, yr unigolyn sy'n meddu ar statws ffoadur. Dylech anfon tystiolaeth o'ch perthynas â'r unigolyn sy'n meddu ar statws ffoadur hefyd, os nad chi yw'r unigolyn hwnnw.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn ffoadur, ni fyddwch yn cael eich ystyried yn 'blentyn' oni bai eich bod dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhieni gyflwyno eu cais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil iddynt ar yr adeg y cyflwynwyd eu cais am loches.

#### **Dyddiad dod i ben**

Os rhoddwyd statws ffoadur heb ddyddiad dod i ben i chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- rhiant/rhieni, llys riant

dylech nodi Amh (amherthnasol) yn y bocs dyddiad dod i ben.

## 3 Preswylfa – parhad

### 3.12 Person heb Wladwriaeth



Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi cael 'caniatâd i aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, byddwch chi neu nhw wedi derbyn llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.



Anfonwch lythyr y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi cael 'caniatâd i aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn unigolyn y rhoddwyd 'caniatâd i aros' iddo fel Unigolyn heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhiant eu cais i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig y cewch eich ystyried fel 'plentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

## 3 Preswylfa – parhad

### 3.13 Caniatâd mynediad neu aros & 3.14



Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn

- 'caniatâd mynediad neu aros' yn y DU ar sail bywyd teuluol neu breifat; **neu**
- 'caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig yn dilyn cais aflwyddiannus am 'ganiatâd mynediad neu aros' ar sail bywyd teuluol neu bersonol ar sail Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR); **neu**
- Caniatâd yn ôl Disgresiwn o ganlyniad i gais lloches aflwyddiannus; **neu**
- Caniatâd yn ôl Disgresiwn ble na wnaethpwyd cais am loches; **neu**
- Diogelwch Dyngarol

bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.



Dylech anfon llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo, fel arfer pasbort neu Drwydded Preswyllo Biometrig, yr unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt. Dylech anfon tystiolaeth o'ch perthynas â'r unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt hefyd, os nad chi yw'r unigolyn hwnnw.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt, ni fyddwch yn cael eich ystyried yn 'blentyn' oni bai eich bod dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhieni gyflwyno eu cais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt, rhaid eich bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil iddynt ar yr adeg y cyflwynwyd eu cais am loches.

## 3 Preswylfa – parhad

### 3.15 Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016



Os ydych wedi cael ‘caniatâd i aros’ yn y Deyrnas Unedig dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, neu os ydych chi’n blentyn dibynnol rhywun sydd, byddwch chi wedi derbyn llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.



Anfonwch lythyr y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi cael ‘caniatâd i aros’ dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o’ch perthynas i’r unigolyn os ydych chi’n blentyn dibynnol rhywun sydd wedi cael ‘caniatâd i aros’ yn y Deyrnas Unedig dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni’n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

### 3.16 Caniatâd Calais



Os ydych wedi cael caniatâd Calais yn y Deyrnas Unedig, neu os ydych chi’n blentyn dibynnol rhywun sydd, byddwch chi, neu nhw, wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.



Anfonwch Hawlen Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd Calais. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o’ch perthynas i’r sawl sydd wedi derbyn caniatâd Calais os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni’n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi’n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd Calais, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi’n cael eich ystyried i fod yn ‘blentyn’.

## 3 Preswylfa – parhad

### 3.17 Dioddefwr trais neu gam-drin domestig



Os ydych chi neu'ch rhiant/llys-riant wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, byddwch chi, neu eich rhiant, wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau hyn.



Anfonwch y llythyr gan y Swyddfa Gartref a'ch Caniatâd Preswyllo Biometrig. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas Unedig fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas Unedig fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

### 3.18 Partner mewn profedigaeth



Os ydych chi neu'ch rhiant/llys-riant wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas fel person sydd wedi bod yn bartner mewn profedigaeth, byddwch chi, neu eich rhiant, wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau hyn.



Anfonwch y llythyr gan y Swyddfa Gartref a'ch Caniatâd Preswyllo Biometrig. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' fel person sydd wedi bod yn bartner mewn profedigaeth os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas Unedig fel bartner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

## 3 Preswylfa – parhad

### 3.21 Statws preswyllo



Dylech ddarparu manylion eich cyfeiriad o'r pwynt y rhoddwyd eich statws neu hyd at uchafswm o dair blynedd cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd os rhoddwyd eich statws cyn hynn.

Dyddiad cychwyn astudio rhwng	Dyddiad cychwyn y flwyddyn academiaidd
1 Awst a 31 Rhagfyr yn gynhwysol	1 Medi
1 Ionawr a 31 Mawrth yn gynhwysol	1 Ionawr
1 Ebrill a 30 Mehefin yn gynhwysol	1 Ebrill
1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf yn gynhwysol	1 Gorffennaf

Os rhoddoch ateb negyddol i'r holl gwestiynau yn yr adran hon, nid ydych yn gymwys i dderbyn cyllid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Efallai y byddwch yn dal i allu cael cyllid Ffioedd Dysgu yn unig os ydych chi'n wladolyn o'r UE/AEE neu'n wladolyn Gwyddelig. Am ragor o wybodaeth ar gyllid Cefnogaeth Ffioedd yn unig, ewch i [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)



## 4 Ynghylch eich prifysgol neu goleg a'ch cwrs

### 4.8 Credydau eich cwrs



Mae bob modiwl y byddwch yn ei astudio yn werth nifer benodol o greydau. Dylech chi gytuno â'ch prifysgol neu eich coleg ynghylch faint o greydau y byddwch yn eu hastudio.

Os na allwch gadarnhau faint o greydau y byddwch yn eu hastudio eto, fe wnawn ni asesu eich cais gan ddefnyddio'r nifer isaf o greydau y gellir eu hastudio ar eich cwrs. Dylech chi gysylltu â ni ar ôl i chi gytuno nifer eich credydau â'ch prifysgol/coleg.

### 4.9 Cyfanswm y Ffi Dysgu a godir



Os nad ydych yn sicr faint fydd fydd eich ffioedd dysgu, holwch eich prifysgol neu eich coleg i gael gwybod am hynny. Dylech nodi swm ar eich ffurflen er mwyn i'r cais gael ei dderbyn.

### 4.10 Addysg Gychwynnol i Athrawon



Mae cwrs uwchraddedig Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) rhan-amser yn gwrs a wneir ar ôl cyflawni gradd gyntaf (Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) a chyrsgiau cyfatebol).

### 4.11 Erasmus+, Cynllun Turing neu ILE



Os ydych chi'n cwblhau lleoliad yn rhan o'r Cynllun Turing, rhaglen Erasmus+, neu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (ILE) (a elwir hefyd yn Taith), ni fyddwch yn gymwys ar gyfer ffioedd addysgu.

### 4.13 Dysgu o bell oherwydd rheswm sy'n ymwneud ag anabledd



Os ydych chi'n ymgeisio am Lwfans Dysgu Rhieni (PLA), Grant Oedolion Dibynnol (ADG) neu Grant Gofal Plant (CCG), mae angen i chi anfon tystiolaeth wedi llungopïo atom sy'n dangos yn glir nad ydych yn gallu mynychu'r brifysgol neu goleg yn bersonol am reswm yn ymwneud â'ch anabledd.

Os ydych chi'n astudio ar gwrs dysgu o bell amser llawn oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog tu allan i Gymru, **nid** oes rhaid i chi anfon tystiolaeth o anabledd.

### 4.14 Lluoedd Arfog



Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth i astudio cwrs dysgu o bell tu allan i'r Deyrnas Unedig os ydych chi neu'ch aelod o'r teulu (yr ydych chi'n byw gydag ef neu hi) ar hyn o bryd yn gwasanaethu dramor yn un o'r canlynol:

- Y Gwasanaeth Llyngesol (y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol)
- Y Fyddin
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Yr Heddlu Milwrol Brenhinol
- Y Gyrcas

Bydd yr aelodau teulu canlynol yn fyfyrwyr cymwys:

- cymar neu bartner sifil yn byw gydag aelod o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- plentyn, llysbentyn neu blentyn mabwysiadol yn byw gydag aelod o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu tu allan i Gymru
- Rhiant dibynnol yn byw naill ai gyda:
  - plentyn sy'n aelod o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
  - cymar neu bartner sifil y plentyn sy'n aelod o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu tu allan i Gymru.



#### **Os ydych chi yn y lluoedd arfog**

Mae angen i chi anfon llythyr yn cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO) ac ym mha wlad roeddech chi'n preswyllo fel arfer cyn i chi symud i'ch lleoliad presennol. Rhaid iddo gadarnhau hefyd y wlad rydych chi wedi'ch lleoli ynddi ar hyn o bryd.

#### **Os yw'r aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog**

Mae angen i chi anfon llythyr atom ni yn cadarnhau'r canlynol:

- ei enw
- ei gyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO)
- eich enw
- ei berthynas â chi
- os yw wedi'i leoli dramor neu yn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru
- os ydych chi wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig, y gwlad ble'r oedd yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig cyn iddo fod wedi'i leoli yn ei leoliad presennol
- os nad ydych chi erioed wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig, y wlad ble gwnaeth ymrestru i fod yn aelod o'r Lluoedd Arfog ynddi

Rhaid i'r llythyr a anfonwch gael ei lofnodi, ei stampio a'i ddyddio gan Swyddfa Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog.

## 5 Eich cais am fenthyciad

### 5.1 Taliadau'r benthyciad



Byddwn yn talu eich Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn tri rhandaliad yn ystod y flwyddyn academaidd. Telir pob un o randaliadau eich Benthyciad Ffioedd Dysgu ar ôl inni gael cadarnhad gan eich prifysgol neu eich coleg eich bod yn mynychu eich cwrs. Mae uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch chi ei gael yn dibynnu ar ble ydych chi'n astudio.

### Atebolrwydd am fenthyciadau



Byddwch yn atebol am eich Benthyciad Ffioedd Dysgu bythefnos wedi dyddiad y tymor cyntaf, ac ar ddechrau'r ail dymor a'r trydydd, nid ar y dyddiadau pryd telir y rhandaliadau i'ch prifysgol neu goleg.

Atebolrwydd	% cyfanswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y byddwch yn atebol amdano
Tymor 1	25%
Tymor 2	50%
Tymor 3	100%

### Llog



Ychwanegir llog at weddill eich benthyciad o'r diwrnod y telir rhandaliad cyntaf y benthyciad i'ch prifysgol neu eich coleg. Gallwch gael rhagor o fanylion am hyn a'r gyfradd llog bresennol yn: [www.gov.uk/repaying-your-student-loan](http://www.gov.uk/repaying-your-student-loan)

### 5.2 Benthyciad Cynhaliaeth



Telir y benthyciad hwn fel rhandaliadau yn uniongyrchol i chi, a'i fwriad yw helpu i dalu am eich costau byw trwy gydol y flwyddyn academaidd.

### Cymhwystra



Rhaid i chi fod dan 60 mlwydd oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs i fod yn gymwys i gael Benthyciad Cynhaliaeth. Darllenwch y tabl ar dudalen 16 i ganfod pryd fydd eich blwyddyn academaidd yn cychwyn.

### Dyrannu taliadau



Byddwn yn cyfrifo yn y lle cyntaf faint o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y gallwch ei gael, yna caiff gweddill eich cyllid myfyrwyr ei roi fel Benthyciad Cynhaliaeth. Os byddwch chi'n gofyn am fwy o Fenthyciad Cynhaliaeth na'r hyn sydd gennych chi hawl i'w gael, byddwn yn rhoi'r swm is i chi.

### Ymgeisio am fenthyciad ar ddyddiad diweddarach neu newid y swm a geisiwyd



Gallwch ymgeisio am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Benthyciad Ffioedd Dysgu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd os bydd hynny o fewn y terfyn amser. Fel arfer, bydd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais yn naw mis o ddechrau eich blwyddyn academaidd. Gallwch ymgeisio am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu, neu newid y swm y gwnaethoch ofyn amdano'n wreiddiol, yn [www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk)

## 6 Myfyrwyr dibynnol ac annibynnol

### 6.3 Gofalu am blentyn



Mae gofalu am rywun sydd dan 18 oed yn golygu eich bod yn gofalu am blentyn a bod y plentyn yn byw gyda chi, beth bynnag fo'ch perthynas â'r plentyn.



Llungopi o dystysgrif(au) geni (g)wreiddiol eich plentyn/plant a thystiolaeth eich bod yn gofau am y plentyn, er enghraifft, tystiolaeth ar ffurf llungopi eich bod yn cael Credyd Cynhwysol, Credyd Treth Plant neu elfen plant Credyd Cynhwysol.

### 6.4 Ymddieithrio heb obaith cymodi



Fel arfer byddwch yn cael eich ystyried fel rhywun sydd wedi ymddieithrio heb obaith cymodi oddi wrth eich rhieni os na fyddwch wedi cael unrhyw gyswllt llafar nac ysgrifenedig â'ch dau riant biolegol neu fabwysiadol, neu'ch unig riant sy'n fyw, am 12 mis neu ragor cyn cychwyn ar eich blwyddyn academaidd, ac ni wnaiff hyn newid.

Ni chewch eich ystyried i fod wedi ymddieithrio heb obaith cymodi oddi wrth eich rhieni oherwydd:

- nad ydych yn gallu cyd-dynnu'n dda â'ch rhieni;
- nad ydych yn byw gyda'ch rhieni;
- nad yw eich rhieni am roi manylion eu hincwm; neu
- mae eich rhieni yn dewis peidio â rhoi cymorth ariannol i chi.

### Dan ofal cyfreithiol awdurdod lleol, neu dan orchymyn gwarchodaeth arbennig



Os ydych wedi bod yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol Awdurdod Lleol, neu dan orchymyn gwarchodaeth arbennig ar unrhyw adeg rhwng 14 ac 16 oed (cyn cychwyn eich cwrs) ond wedi bod yn ôl yng ngofal cyfreithiol eich rhieni, byddwch yn dal i gael eich ystyried yn annibynnol.

Dim ond os ydych chi'n ymgeisio am unrhyw grantiau ar gyfer dibynyddion, fel Lwfans Dysgu Rhieni (PLA) a Grant Oedolion Dibynnol (ADG) y dylech chi anfon tystiolaeth o incwm eich cartref atom.

### 6.5 Hunangynhaliath



Er mwyn cael eich ystyried fel unigolyn hunangynhaliol, rhaid i chi fod wedi bod yn talu eich costau byw eich hun am 3 blynedd o leiaf (nid oes yn rhaid iddynt fod yn 3 blynedd olynol) o unrhyw un o'r ffynonellau isod:

- Incwm o hunangyflogaeth;
- Budd-daliadau;
- Ysgoloriaethau ymchwil y wladwriaeth;
- Ysgoloriaethau, arddangosfeydd a bwrsariaethau.

Ni ystyrir eich bod yn hunangynhaliol os ydych yn talu eich costau byw gan ddefnyddio arian y byddwch yn ei gael gan riant.



Llungopi o'ch ffurflenni P60 neu wybodaeth am eich budd-daliadau.

## 7 Cwestiynau ariannol myfyrwyr

### 7.1 Incwm heb ei ennill



Efallai y gofynnir i chi gadarnhau unrhyw amcangyfrif o'ch incwm yn ddiweddarach.

Os yw eich gwir incwm yn wahanol i'r amcangyfrif, byddwn yn ail asesu eich hawl i gyllid myfyrwyr. Gall hyn newid y lefel o gymorth ariannol y byddwch yn ei gael.

Wrth gyfrifo eich incwm trethadwy heb ei ennill ni ddylech gynnwys:

- enillion o waith amser llawn neu ran-amser fel gwaith yn y gwyliau neu waith y byddwch yn ei wneud yn ystod y tymor;
- unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth neu daliadau grant y gallwch eu derbyn;
- taliadau y byddwch chi'n eu cael gan eich rhieni trwy gyfamod;
- taliadau cynhaliaeth y byddwch chi'n disgwyl eu cael ar gyfer eich plant. Dylai'r taliadau cynhaliaeth hyn gael eu cynnwys fel rhan o incwm eich plant yng nghwestiwn 8c;
- Bwrsariaethau Hyfforddi Athrawon;
- Bwrsariaeth Addysg Uwch (i'r sawl sy'n gadael gofal);
- cymorthdaliadau a delir gan y lluoedd arfog i filwyr wrth gefn neu bensiynau anableded neu anallu; neu
- ISAs.

### 7.2.1 Taliadau gan gyflogwr



Dylech nodi swm yma dim ond os byddwch yn cael eich rhyddhau o'ch gwaith gan eich cyflogwr i ddilyn y cwrs. Os yw hynny'n wir, dim ond cyflog ar gyfer y dyddiau yr ydych yn mynychu'r cwrs ac wedi cael eich rhyddhau o'ch gwaith ar eu cyfer y dylech ei gynnwys. Gall unrhyw enillion o gyflog a nodir yma gael effaith ar eich hawl i gyllid myfyrwyr.

**Peidiwch** â nodi unrhyw swm yma os ydych yn fyfyrwr sy'n gweithio tra byddwch yn astudio ond nad ydych wedi cael eich rhyddhau yn benodol gan eich cyflogwr i fynychu eich cwrs.

### 7.3 Plant dibynnol



Rhaid ichi gynnwys unrhyw incwm a gaiff y plentyn trwy weithio, o log a enillwyd ar gynilon, o fuddsoddiadau ac o unrhyw daliadau cynhaliaeth rydych yn disgwyl eu cael ar gyfer eich plant fel rhan o'u hincwm hwy yn y cwestiwn hwn. Peidiwch â chynnwys incwm o ffynonellau megis Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, elfen plant y Credyd Cynhwysol, Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth neu symiau minimol o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm plentyn dibynnol.

Os bydd incwm eich plentyn dibynnol yn llai o 15% o leiaf nag yr oedd yn y flwyddyn dreth 2020-21 gallwch wneud cais am asesiad o incwm y flwyddyn gyfredol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn defnyddio ei incwm disgwyliedig ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 yn hytrach na'i wir incwm ar gyfer 2020-21 wrth gyfrifo eich hawl i gael grant. Os dymunwch gael eich asesu gan ddefnyddio'r incwm disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn dreth 2022-23 defnyddiwch y tudalennau nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen gais i roi manylion i ni.

## 7 Cwestiynau ariannol myfyrwyr - parhad

**Dyddiad geni unrhyw blant**

Llungopi o dystygrif(au) geni'r plentyn/plant.

**Incwm y plentyn**

Anfonwch lungopiâu o dystiolaeth yn dangos incwm y plentyn o bob ffynhonnell ar ôl didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ym mlwyddyn dreth 2020-21.

## 9 Ynghylch eich teulu

**Myfyrwyr dibynnol**



Os ydych chi'n fyfyrwr dibynnol, mae'r perthnasau canlynol yn cyfrif at ddibenion asesu incwm:

- eich rhieni naturiol neu fabwysiadol, os yw'r ddau ohonynt yn byw gyda chi.
- eich rhiant a'i bartner, os oes ganddo/ganddi un.

Diffinnir partner eich rhiant fel:

- eich llystad neu eich llysfam.
- partner eich rhiant o'r rhyw arall neu o'r un rhyw os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

**Myfyrwyr annibynnol**



Os ydych yn fyfyrwr annibynnol, dim ond eich partner, os oes gennych un, fydd yn cyfrif.

Diffinnir eich partner fel a ganlyn:

- eich gŵr, gwraig neu bartner sifil;
- eich partner o'r rhyw arall neu o'r un rhyw, os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

**Statws perthynas presennol rhiant**



Llungopi o'r canlynol:

- Archddyfarniad Absoliwt/Archddyfarniad Amodol, **neu**
- Orchymyn diddymu, **neu**
- lythyr gan ei dwrnai yn cadarnhau ei statws.

## Hunanasesu



### Os gwnaethoch lenwi ffurflen dreth ar-lein

Dylech gyfeirio at y ffurflen dreth ar-lein wedi'i chadw i gael y ffigyrau incwm sy'n ofynnol yn yr adran hon.

### Os gwnaethoch lenwi ffurflen dreth bapur

Mae canllaw ar-lein i'ch helpu i ateb y cwestiynau yn yr adran hon, a gallwch ei lawrlwytho o [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)

## Beth sy'n digwydd os yw incwm fy nghartref wedi gostwng ers blwyddyn dreth 2020-21?



Os bydd incwm eich cartref (cyn treth) ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 o leiaf 15% yn llai nag yr oedd yn ystod blwyddyn dreth 2020-21, dylech lenwi'r adran hon serch hynny, a llenwi Ffurflen Asesu Incwm 2 ar gyfer y Flwyddyn Gyfredol.

Gallwch lwytho'r ffurflen hon i lawr o [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)



Sylwer na fydd modd cynnal asesiad incwm ar gyfer y flwyddyn gyfredol oni bai eich bod yn darparu eich manylion ariannol a thystiolaeth ar gyfer blwyddyn dreth 2020-21.

## Rhan B

### Rhannu data a chi



Byddwn yn cadarnhau'r wybodaeth ariannol a roddwch i ni gyda Chyllid a Thollau EM. Cedwir yr wybodaeth hon yn ddiogel a chaeth yn unol â gofynion darpariaethau deddfwriaeth gwarchod data perthnasol yn y Deyrnas Unedig.

Os na fyddwch yn nodi eich rhif Yswiriant Gwladol ar y ffurflen gais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau ariannol.

Os dangosir eich rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw ddogfennau y byddwch yn eu hanfon atom ni i ategu cais, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon ac yn ei rhannu a'i chadarnhau â Chyllid a Thollau EM er mwyn cael gwybodaeth ariannol gywir amdanoch chi.

## Rhan C

### Eich gwybodaeth ariannol



Nodwch fanylion ariannol blwyddyn dreth 2020-21. Fel arfer, dyma'r flwyddyn sy'n diweddau ar 5 Ebrill 2021, ond gall fod yn wahanol os oes gan eich cyflogwr neu fusnes flwyddyn dreth sydd ddim yn diweddau yn Ebrill.

Yn achos unrhyw incwm a dalwyd fel arian tramor, nodwch y swm cyfwerth mewn punnoedd sterling.

### C1a Incwm o gyflog neu dâl



Dylech chi gyfeirio at eich P60 neu eich slip talu terfynol ar gyfer 2020-21 i weld manylion eich incwm o gyflog. Os cawsoch chi **gildyrnau a thaliadau eraill** sydd heb eu dangos ar eich P60 fel rhan o'ch cyflog neu'ch tâl yn 2020-21, bydd rhaid i chi gynnwys y ffigwr hwn wrth nodi cyfanswm yr incwm a enilloch chi trwy gyflogaeth.

## 11 ▶ Manylion ariannol – parhad

### Budd-daliadau gwladol trethadwy



Dylech chi gyfeirio at eich P60 neu eich slip talu terfynol ar gyfer 2020-21 i weld manylion eich budd-daliadau gwladol trethadwy. Dylech gynnwys yr incwm a gafwyd yn achos y budd-daliadau hyn yn unig:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau
- Budd-dal Ymddeol Graddedig
- Budd-dal Analluogrwydd (dylech gynnwys y swm a dderbynnir wedi 28 wythnos o analluogrwydd yn unig)
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Tâl Mabwysiadu Statudol
- Tâl Mamolaeth Statudol
- Tâl Tadolaeth Statudol
- Tâl Salwch Statudol
- Lwfans Rhiant Gweddw

Peidiwch â chynnwys incwm o unrhyw fudd-daliadau eraill, yn cynnwys Credyd Cynhwysol.

### Pensiwn galwedigaethol/preifat



Os cawsoch chi pensiwn galwedigaethol neu breifat, dylech gyfeirio at eich P60P neu ddatganiad blynyddol gan eich darparwr pensiwn.

### C3 Incwm o gynilon a buddsoddiadau



I sicrhau fod y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi'i rannu yn bedair rhan. Efallai eich bod chi wedi cael neu heb gael incwm o bob rhan. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

**Dywedwch wrthym am gyfanswm y llog/incwm a gawsoch yn sgil cynilon a budd-daliadau yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, ni cyfanswm y cynilon neu'r symiau buddsoddi oedd gennych chi.**

### Cyfanswm llog gan fanciau, cymdeithasau adeiladu ac ymddiriedolaethau unedol yn y Deyrnas Unedig



Dywedwch wrthym faint o logau / incwm a gawsoch chi o'r mathau canlynol o gynilon ac incwm buddsoddi:

**Llog gros yn y Deyrnas Unedig yw hyn (cyn i dreth gael ei ddiynnu)**

Rhaid i chi gynnwys y llog a gewch ar gyfrifon banc neu gymdeithasau adeiladau a chyfrifon cynilo eraill, oni bai ei fod yn benodol ddi-dreth, er enghraifft, Cyfrif Cynilo Unigol (ISA) di-dreth ac ati.

**Os na wnaethoch chi ddatgan unrhyw gynilon ac incwm buddsoddi i HMRC.**

Cyfeiriwch at gyfriflenni eich banc neu eich cymdeithas adeiladu i weld y ffigyrau hyn.



## 11 ▶ Manylion ariannol – parhad

### Cyfanswm incwm o enillion yswiriant bywyd, gwarantau a phartneriaethau yn y Deyrnas Unedig



Dywedwch wrthym faint o logau / incwm a gawsoch chi o'r math(au) canlynol o gynilion ac incwm buddsoddi:

- Llog o stoc gilt a gwarantau eraill yn y Deyrnas Unedig – cyfanswm gros cyn treth
- Enillion polisi yswiriant bywyd ayyb yn y Deyrnas Unedig y cafodd treth a dalwyd arnyn nhw ei drin fel treth a dalwyd
- Enillion polisi yswiriant yn y Deyrnas Unedig ac ati yr oedd y dreth yn cael ei thrin fel treth a dalwyd
- Enillion polisiâu yswiriant bywyd yn y Deyrnas Unedig ac ati o ISAs a ddilëwyd
- Eich cyfran o log ac ati a drethwyd
- Cyfanswm incwm cynilon heb ei drethu trethadwy ar 20%
- Incwm y codwyd treth arno trethadwy ar 10%
- Incwm y codwyd treth arno trethadwy ar 20%

**Peidiwch â chynnwys incwm o unrhyw fudd-daliadau eraill, yn cynnwys Credyd Cynhwysol.**

### Incwm o fuddsoddiadau a difidendau yn y Deyrnas Unedig



Dywedwch wrthym faint o logau / incwm a gawsoch chi o'r math(au) canlynol o gynilion ac incwm buddsoddi:

- Difidendau gan gwmnïau yn y Deyrnas Unedig
- Difidendau eraill
- Difidendau stoc
- Dosbarthiadau anghymwys a benthyciadau cwmni caeedig a ddilëwyd neu a ryddhawyd
- Cynlluniau cyfranddaliadau – swm trethadwy

### Incwm o fuddsoddiadau a difidendau tramor



Dywedwch wrthym faint o logau / incwm a gawsoch chi o'r math(au) canlynol o gynilion ac incwm buddsoddi:

- Difidendau tramor
- Llog ac incwm arall o gynilon tramor
- Difidendau gan gwmnïau tramor
- Incwm difidendau a dderbyniwyd gan unigolyn tramor

## 11 Manylion ariannol – parhad

### C4 Incwm o fuddion trethadwy mewn nwyddau



#### P11D

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion beth yr ydym am i chi ei gynnwys fel rhan o gyfanswm eich incwm o 'fuddion trethadwy mewn nwyddau' yn ystod blwyddyn dreth 2020-21. Adiwrch yr holl fuddion mewn da y gwnaethoch eu derbyn at ei gilydd ac ysgrifennwch y cyfanswm ar y ffurflen.

#### Buddion mewn nwyddau

Asedau a oedd ar gael i gyflogeion (ceir, eiddo, nwyddau neu asedau eraill)

Taliadau a wnaed ar ran gweithiwr

Talebau a chardiau credyd

Llety

Lwfans milltired a thaliadau i deithwyr

Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol yr holl geir/faniau oedd ar gael

Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol tanwydd ar gyfer yr holl geir/faniau oedd ar gael

Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol benthyciadau ar ôl didynnu unrhyw log a dalwyd gan y benthyciwr

Triniaeth feddygol breifat neu yswiriant meddygol preifat

Taliadau a buddion treuliau symud cymwys

Gwasanaethau a ddarparwyd

Asedau at ddefnydd gweithwyr

Eitemau eraill (yn cynnwys tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol)

Taliadau treuliau a wnaed i'r gweithiwr neu ar ei ran

### Rhan D Incwm Arall

### C1 Incwm o hunangyflogaeth



I sicrhau fod y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi'i rannu yn ddwy ran. Efallai eich bod chi wedi cael neu heb gael incwm o'r ddwy ran. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

#### Cyfanswm yr elw wedi'i addasu o fusnesau



Dylech gynnwys y math incwm isod fel eich ateb ar gyfer cyfanswm yr elw wedi ei addasu a gawsoch o hunangyflogaeth yn ystod blwyddyn dreth 2020-21.

- Cyfanswm elw wedi'i addasu o'r busnes hwn (wedi'i gyfuno yn achos sawl hunangyflogaeth)

#### Cyfanswm yr elw wedi'i addasu o bartneriaethau



Dylech gynnwys y math(au) o incwm isod fel eich ateb ar gyfer cyfanswm yr elw wedi ei addasu a gawsoch o hunangyflogaeth yn ystod blwyddyn dreth 2020-21

- Cyfran o gyfanswm yr incwm wedi'i drethu a heb ei drethu ac eithrio incwm a drethir ar 10% ac 20%
- Eich cyfran o gyfanswm elw wedi'i addasu o'r partneriaethau

## 11 Manylion ariannol – parhad

### C2 Gweinidog yr Efengyl



Dywedwch wrthym ni am gyfanswm yr incwm a gawsoch chi o'r math canlynol o incwm yn ystod blwyddyn dreth 2020-21:

- Cyfanswm yr incwm trethadwy llai'r treuliau (Gweinidogion yr Efengyl) sydd heb eu cynnwys ar eich P60 neu eich P11D

### C3 Incwm arall a chyfandaliadau



Dylech gynnwys y math(au) incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch o incwm arall a chyfandaliadau.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2020-21 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai nad ydych chi wedi cael incwm o bob math o incwm a restrir. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

- Incwm trethadwy arall – cyn didynnu costau a threthi
- Enillion tramor sydd ddim yn drethadwy yn y Deyrnas Unedig
- Cyfandaliadau trethadwy
- Cyfandaliadau neu fuddion a gafwyd o Gynllun Buddion Ymdeol a Ariennir gan Gyflogwr ac eithrio pensiynau
- Colli gwaith ac iawndal am golli gwaith

### C4 Incwm trwy osod eiddo



Dylech gynnwys y math(au) o incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch trwy osod eiddo.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2020-21 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai nad ydych chi wedi cael incwm o bob math o incwm a restrir. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

- Incwm o eiddo yn y Deyrnas Unedig
- Incwm o eiddo neu dir tramor

### C5 Incwm o ymddiriedolaethau yn y Deyrnas Unedig



Dylech gynnwys y math(au) o incwm isod fel eich ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch o ymddiriedolaethau yn y Deyrnas Unedig.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2020-21 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai nad ydych chi wedi cael incwm o bob math o incwm a restrir. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

- Taliad incwm dewisol o ymddiriedolaeth i breswylwyr o'r Deyrnas Unedig – Swm net
- Taliad incwm dewisol o ymddiriedolaeth i breswylwyr o'r Deyrnas Unedig – Cyfanswm taliadau o ymddiriedolaethau budd setlwyr
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – cyfanswm net incwm nad yw'n gynilon
- Hawl incwm annewisol o ymddiriedolaeth – cyfanswm net incwm cynilon
- Hawl incwm annewisol o ymddiriedolaeth – cyfanswm net incwm o ddifidendau
- Incwm a drethir ar setlwyr
- Incwm o ystadau yn y Deyrnas Unedig
- Incwm o ystadau tramor

## 11 Manylion ariannol – parhad

### C6 Incwm tramor



Dylech gynnwys y math(au) o incwm isod fel eich ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch o incwm tramor.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2020-21 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai nad ydych chi wedi cael incwm o bob math o incwm a restrir. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

- Cyfanswm trethadwy'r pensiynau, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau tramor
- Cyfanswm trethadwy pob incwm arall a dderbynnir gan unigolyn dramor ac unrhyw incwm tramor 'wedi'i glustnodi' a drosglwyddir
- Enillion yn sgil gwaredu daliannau, cronfeydd tramor ac incwm o ymddiriedolaethau dibreswyl
- Buddion a gafwyd gan ymddiriedolaeth, cwmni neu unigolyn arall mewn gwledydd tramor
- Enillion ar bolisiau yswiriant bywyd mewn gwledydd tramor (cyfanswm yr enillion)

### C7 Incwm o incwm ac enillion tramor



Dylech gynnwys y math(au) o incwm isod fel eich ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch o bensiwn tramor.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2020-21 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai nad ydych chi wedi cael incwm o bob math o incwm a restrir. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

- Gwerth y buddion pensiwn ar ben y Lwfans Gydol Oes Sydd Ar Gael, y gwnaethoch eu cymryd fel cyfandaliad
- Cyfanswm taliad anawdurdodedig o gynllun pensiwn, na chodir gordoll arno
- Cyfanswm taliad anawdurdodedig o gynllun pensiwn, y codir gordoll arno
- Ad-daliad gwasanaeth byr trethadwy o gyfraniad (cynlluniau pensiwn mewn gwledydd tramor yn unig)
- Taliad cyfandaliad buddion marwolaeth trethadwy (pensiynau mew gwledydd tramor yn unig)

### C8 Incwm o incwm ac enillion tramor



Dylech gynnwys y math o incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch o incwm arall a chyfandaliadau tramor.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2020-21 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai nad ydych chi wedi cael incwm o bob math o incwm a restrir. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

- Cyfanswm hepgoriadau (eithriadau wrth drosglwyddo asedau tramor)

### Rhan E

#### C3 Treuliau a ganiateir y gwnaethoch chi hawlio gostyngiad yn y dreth amdanynt



Mae'r rhestr isod yn cynnwys yr eitemau yr ydym yn dymuno i chi eu cynnwys yn eich ateb ynghylch cyfanswm y treuliau a ganiateir oedd gennych chi y gwnaethoch hawlio gostyngiad yn y dreth amdanynt. Cyfunwch yr holl dreuliau a ganiateir isod yr ydych chi wedi'u cael yn ystod blwyddyn dreth 2020-21 a nodwch eich cyfanswm ar y ffurflen. Efallai nad ydych chi wedi cael yr holl dreuliau a ganiateir a restrir. Rhowch wybod i ni am y rhai a gawsoch chi.

- Cyfanswm y treuliau a ganiateir
- Treth mewn gwlad dramor na hawliwyd gostyngiad yn y dreth amdano
- Teithio busnes a chostau cynhaliaeth
- Didyniadau sefydlog am gostau
- Ffioedd a thanysgrifiadau proffesiynol
- Costau a lwfansau cyfalaf eraill

## Atwrneiaeth



Os na allwch lofnodi'r ffurflen, rhaid i'ch atwrnai lofnodi'r ffurflen ar eich rhan. I ganiatâu Atwrneiaeth i unigolyn, bydd angen ichi lenwi ffurflen gyfreithiol yn nodi ei enw, y cyfnod penodol y gall weithredu ar eich rhan, a'r tasgau penodol y gall berfformio. Rhaid anfon y llythyr Atwrneiaeth gyda'r cais cyn gellir derbyn llofnod gan yr atwrnai hwnnw.

## Hysbysiad Preifatrwydd



Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr (SLC) a Llywodraeth Cymru yn Gyd-reolyddion Data o dan Ddeddfwriaeth Gwarchod Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwysra i gael cyllid myfyrrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i wneud unrhyw un o'r rhain.

I gael rhagor o wybodaeth am y dull o ddefnyddio eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani a'r hawliau sydd gennych chi mewn cysylltiad â hynny, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn sydd ar gael yn [www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/hysbysiad-preifatrwydd](http://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn ni anfon copi atoch chi.

## Rhannu data at ddibenion bwrsariaeth ac ysgoloriaeth



Efallai y byddwch yn gymwys am fwrsariaeth neu ysgoloriaeth. Er mwyn i brifysgol neu goleg allu pennu a thalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y bydd gennych hawl iddo, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch manylion personol, ariannol a chwrs yn ogystal â gwybodaeth am eich cymhwyster am gyllid i fyfyrwyr gyda nhw.

## Camau nesaf ar eich taith cyllid myfyrwyr

1

Byddwch **chi** yn llenwi ac yn dychwelyd eich ffurflen gais atom, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth, cyn gynted ag y bo modd.

**Rydych  
chi  
yma**

2

Byddwn **ni** yn prosesu eich cais. Os bydd gwybodaeth ar goll neu'n anghywir, byddwn yn cysylltu â chi. Ar ôl cael yr holl wybodaeth angenrheidiol, byddwn yn anfon llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr atoch.

3

Byddwch **chi** yn dangos eich llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr i'ch prifysgol neu goleg (os byddant yn gofyn am ei weld).

4

Byddwn **ni** yn talu eich Benthyciad Ffi Dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu eich coleg ar ôl iddynt ein hysbysu eich bod yn mynychu eich cwrs (os yw'n berthnasol).

Byddwn **ni** yn talu eich Grant Dysgu a/neu Fenthyciad Cynhaliaeth Llywodraeth Cymru i chi.